

Deuparth Ffordd Ei Gwybod



Polisi Presenoldeb

Mae'r polisi hwn wedi'i gymeradwyo a'i argymhell i'w
fabwysiadu gan y Corff Llywodraethol Llawn.
Adolygwyd – Rhagfyr 2020

Arwyddwyd: _____

Ms Julie Barton
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

I'w adolygu:

YSGOL GARTH OLWG

POLISI PRESENOLDEB:

Mae Ysgol Garth Olwg yn ysgol lwyddiannus ac mae eich plentyn yn cyfrannu at y llwyddiant hwnnw. Ein nod yw creu awyrgylch sy'n galluogi ac annog pob aelod o'r gymuned i ymgynraedd tuag at ragoriaeth. Er mwyn i'n plant fanteisio i'r eithaf ar eu haddysg, mae'n hanfodol eu bod yn mynychu'r ysgol yn gyson a dylai eich plentyn fod yn yr ysgol, ar amser, ar bob diwrnod y mae'r ysgol ar agor, oni ellir osgoi'r rheswm dros fod yn absennol.

Mae'n bwysig iawn o'r herwydd eich bod yn sicrhau bod eich plentyn yn mynychu yn gyson ac yn brydlon. Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut, gyda'n gilydd, y byddwn yn gwireddu hyn.

Pam ei bod hi'n bwysig bod yn bresennol yn gyson

Dysgu

Mae unrhyw absenoldeb yn effeithio ar batrwm addysgu'r plentyn a gall absenoldeb cyson effeithio'n ddifrifol ar ei addysg. Mae absenoldeb unrhyw ddisgybl yn tarfu ar drefn y dysgu a gall hynny yn ei dro effeithio ar addysg disgyblion eraill yn yr un dosbarth.

Eich cyfrifoldeb cyfreithiol chi yw sicrhau bod eich plentyn yn mynychu'r ysgol yn gyson, ac mae caniatáu eu habsenoldeb o'r ysgol heb reswm da, yn drosedd yng ngolwg y gyfraith a gall arwain at erlyniad.

Diogelu

Gall eich plentyn fod mewn perygl o gael ei niweidio os nad ydynt yn mynychu'r ysgol yn gyson. Mae diogelu buddiannau pob plentyn yn gyfrifoldeb i bawb ac o fewn cyd-destun yr ysgol mae hyrwyddo lles a chyfleoedd bywyd ar gyfer eich plentyn yn cwmpasu:

- Presenoldeb;
- Rheoli ymddygiad;
- Iechyd a Diogelwch;
- Mynediad i'r Cwricwlwm;
- Atal Bwlio.

Bydd methu â mynychu Ysgol Garth Olwg yn gyson yn cael ei ystyried yn fater diogelu. (*Atodiad (ii)*)

Hyrwyddo presenoldeb cyson

Mae cynorthwyo gyda sefydlu patrwm o fynychu'n gyson yn gyfrifoldeb i bawb – rhieni, disgyblion a holl aelodau staff yr ysgol. (*Atodiad (i)*)

Er mwyn ein cynorthwyo oll i ganolbwyntio ar hyn, byddwn yn:

- Dathlu presenoldeb uchel trwy arddangos llwyddiannau unigolion a dosbarthiadau;
- gwobrwyo presenoldeb uchel ynteu lefelau presenoldeb sy'n gwella trwy gystadlaethau dosbarth, tystysgrifau a thripiâu/digwyddiadau.

Deall amrywiol fathau o absenoldeb

Rhennir y dydd ysgol i ddwy sesiwn gofrestru. Mae cofnod cofrestru yn digwydd ar yr aamseroedd canlynol;

	Sesiwn bore	Sesiwn prynhawn
Ysgol Isaf	8.50	1.15
Bl.5 a 6	8.45	1.15
Bl.7 - 13	8.30	2.00

Rhaid i'r ysgol ddsbarthu pob absenoldeb o hanner diwrnod o'r ysgol (yn hytrach na'r rheini), fel un a AWDURDODWYD ynteu HEB EI AWDURDODI. Dyna pam bod angen gwybodaeth bob amser ynghylch y rheswm dros unrhyw absenoldeb, yn ddelfrydol gwybodaeth ysgrifenedig.

Ystyr absenoldeb wedi ei awdurdodi yw bore ynteu brynhawn heb fod yn yr ysgol sydd o ganlyniad i reswm da megis salwch, apwyntiadau meddygol/deintyddol na ellid bod wedi eu trefnu y tu allan i oriau ysgol, argyfyngau ynteu resymau eraill na ellid eu hosgoi. Holwn i chi ddarparu tystiolaeth ynghylch unrhyw apwyntiadau meddygol.

Dim ond yr ysgol all awdurdodi absenoldeb. Nid oes gan Rieni/Gofalwyr yr awdurdod hwn.

Absenoldeb heb awdurdod yw'r rheini nad yw'r ysgol yn eu ystyried yn resymol, ac nad oes caniatâd wedi ei roi ar eu cyfer. Gall absenoldeb o'r math hwn arwain at yr Awdurdod Lleol yn cyflwyno cosb ac/ynteu gamau cyfreithiol. Gall hyn gynnwys:

- rhieni/gofalwyr yn cadw plant o'r ysgol yn ddi-angen;
- chwarae triwant am ran ynteu'r cyfan o'r diwrnod ysgol;
- absenoldeb nad ydynt wedi eu hesbonio'n ddigonol;
- plant sy'n cyrraedd yr ysgol yn rhy hwyr i dderbyn marc;
- siopa, gwarchod plant eraill ynteu ben-blwyddi;
- gwibdeithiau diwrnod ynteu wyliau yn ystod cyfnod y tymor.

Gwyliau teuluol

Mae'r ysgol yn gryf o'r farn na ddylid fod yn absennol o ganlyniad i wyliau teuluol yn ystod y tymor. Mae colli ysgol yn cael effaith ddifrifol ac andwyol ar addysg, gynnydd a chyrhaeddiad ein disgyblion.

Does **dim hawl** i ddisgyblion gael amser i ffwrdd yn ystod amser ysgol i fynd ar wyliau.

Mae Awdurdod Lleol Rhondda Cynon Taf yn disgwyl i ysgolion wrthod caniatáu gwyliau yn ystod y tymor oni bai bod y cais yn cyd-ymffurfio â'r amgylchiadau canlynol:

- Teuluoedd personél sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog;
- Rhiant ynteu blentyn sy'n dioddef o afiechyd a all gyfyngu ynteu fyrhau bywyd;
- Teuluoedd sydd wedi dioddef ysgytwad enbyd.

Mae Ysgol Garth Olwg yn defnyddio meini prawf wrth prosesu ceisiadau gwyliau er mwyn cynnal tegwch:

- Ym mhob achos rhaid llenwi *Ffurflen Hysbysu am Wyliau* o leiaf 4 wythnos cyn y gwyliau
- Dylai'r presenoldeb fod yn uwch na 97% er mwyn i caaeisiadau gwyliau fod yn awdurdodedig
- Ni fydd unrhyw wyliau yn cael eu hawdurdodi ym mis Medi oherwydd bod disgyblion yn ymgartrefu
- Gellir awdurdodi uchafswm o 10 diwrnod a dim ond un gwyliau bob blwyddyn academaidd y gellir ei ganiatáu
- Ni fydd gwyliau'n cael ei awdurdodi yn ystod cyfnodau arholiad na phrofion Cenedlaethol.

Mae'r ysgol yn gweithredu yn ôl y canllawiau yma.

Erys yn fater i brifathro'r ysgol awdurdodi absenoldeb fel y gwêl yn ddoeth yn unol ag amodau codau presenoldeb Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 a chanllawiau atodol a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Fe'ch cynghorir i gysylltu gyda Swyddog Presenoldeb yr ysgol cyn gwneud unrhyw drefniadau ac i gyflwyno ffurflen cais am wyliau cyn gynted ag y bo modd.

Trefniadau absenoldeb

- Cysylltwch â ni cyn gynted â phosib ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb cyn 9.30yb. Os yw eich plentyn yn parhau i fod yn absennol, cysylltwch ar ysgol pob dydd trwy ffonio 01443 570050 a gadael neges ar y peiriant ateb, ynteu trwy anfon e-bostio at gweinyddol.gartholwg@gartholwg.cymru.

- Anfonwch nodyn ar y diwrnod cyntaf y bydd y plentyn yn dychwelyd i'r ysgol gydag esboniad am yr absenoldeb.
- Ynteu medrwch alw i mewn i'r ysgol ac adrodd wrth staff y dderbynfa.

Os yw eich plentyn yn absennol byddwn yn:

- eich ffonio ynteu'n anfon neges destun atoch ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb oni fyddwn wedi clywed oddi wrthy;ch;
- eich gwahodd i mewn i'r ysgol i drafod y sefyllfa gyda Mrs Thomas-Thorne , y Swyddog Presenoldeb ac/ynteu yr Arweinwyr Blwyddyn, y Dirprwy Brifathro os bydd yr absenoldeb yn parhau;
- cyfeirio'r mater at y Gwasanaeth Presenoldeb a Lles yn ôl y galw.

Swyddog Presenoldeb yr Ysgol

Disgwylir y rieni gysylltu â'r ysgol yn gynnar a chyd-weithio gyda'r staff i ddatrys unrhyw broblemau gyda'n gilydd. Mae hyn yn llwyddiannus bron yn ddi-eithriad. Os na ellir datrys y sefyllfa fel hyn, gall yr ysgol gyfeirio eich plentyn at yr Awdurdod Addysg Lleol. Byddant hwythau hefyd yn ceisio datrys y sefyllfa trwy gytundeb ond, os na fydd dulliau gwahanol o wella presenoldeb eich plentyn wedi gweithio ac absenoldebau heb eu hawdurdodi yn parhau, gall y swyddogion hyn weithredu cosbau megis Hysbysiadau Cosb Benodedig ynteu erlyniadau yn Llys yr Ynadon. Mae'r holl fanylion ynghylch yr hyn y gellir ei wneud er mwyn sicrhau presenoldeb yn yr ysgol ar gael oddi wrth yr ysgol ynteu'r Adran Addysg.

Diffyg prydlondeb

Mae diffyg prydlondeb yn annerbyniol. Os bydd eich plentyn yn colli dechrau'r dydd mae'n bosib y byddant yn colli gwaith ac yn colli treulio amser gyda'r athro dosbarth er mwyn derbyn gwybodaeth allweddol a newyddion y dydd. Gall disgyblion sy'n cyrraedd yn hwyr darfu ar wersi, godi cywilydd ar y plentyn a gall hefyd annog absenoldeb.

Sut ydym ni'n rheoli diffyg prydlondeb

Mae diwrnod yr ysgol yn dechrau am 8:30yb. a disgwylwn i'ch plentyn fod yn y dosbarth erbyn yr amser hwnnw. Bydd eich plentyn yn derbyn marc hwyr os nad ydyw yno erbyn yr amser hwnnw.

Am 9:15 a.m. caiff y cofrestrau ar gyfer sesiwn y bore eu cau. Yn unol â'r Rheoliadau, os bydd eich plentyn yn cyrraedd ar ôl yr amser hwnnw, byddant yn derbyn marc sy'n nodi ei bod ar y safle, ond **ni** fydd hyn yn cyfrif fel marc presenoldeb gan olygu ei gyfrif fel absenoldeb heb awdurdod.

Os oes gan eich plentyn gofnod o fod yn gyson hwyr byddwch yn derbyn cais i gyfarfod gyda'r Arweinydd Blwyddyn ynteu'r Swyddog Presenoldeb er mwyn datrys y broblem, ond medrwch droi atom ar unrhyw adeg os ydych chi'n cael trafferth i gael eich plentyn i'r ysgol yn brydlon.

Hysbysiadau Cosb Benodedig

O dan amodau Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013 rhoddwyd yr awdurdod i Awdurdodau Lleol gyflwyno Hysbysiadau Cosb Benodedig (HCBau) fel dewis amgen i gychwyn camau cyfreithiol yn erbyn rhieni/gofalwyr wrth ymateb i absenoldeb o'r ysgol.

Er mwyn cyd-ymffurfio â Rheoliadau Addysg (Hysbysiadau Cosb) (Cymru) 2013, bydd yr ysgol yn gweithredu yn unol â Chod Ymddygiad yr awdurdod leol ar gyfer cyflwyno hysbysiadau cosb o ganlyniad i ddiffyg presenoldeb cyson yn yr ysgol. Erys yn fater i'r prifathro awdurdodi absenoldeb yn unol â'i ddoethineb yn gyson â chod presenoldeb Rheoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010 a'r cyfarwyddyd atodol a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

Pryd ddefnyddir HCBau?

- Pan fo disgybl gydag o leiaf ddeg sesiwn o absenoldeb heb ganiatâd wedi eu cofnodi yn ystod y tymor cyfredol (nid oes raid i'r rhain fod yn rhai dilynol, a nodwch os gwelwch yn dda fod y diwrnod ysgol wedi ei rannu'n ddwy sesiwn, bore a phrynhawn);
- I ymateb i ddiffyg prydlondeb cyson a chyrraedd yr ysgol yn hwyr .h.y. wedi'r cyfnod ar gyfer cofrestru. Eto, bydd hyn pan gofrestrwyd o leiaf ddeg marc hwyr yn ystod y tymor cyfredol;
- Am absenoldeb gwyliau heb ganiatâd. Dylai rhieni fod yn ymwybodol y gall cymryd gwyliau teuluol yn ystod y tymor arwain at daliad HCB;
- Os na fydd ymgais ar ran y rhiant ynteu rieni/gofalw(y)r i ymwneud â'r ysgol ynteu'r Awdurdod Lleol parthed absenoldeb ei plentyn.
- Os fydd disgybl yn denu sylw'r heddlu yn gyson yn ystod oriau ysgol ac yn absennol o'r ysgol heb reswm derbyniol, gall awdurdod yr heddlu wneud cais i'r Awdurdod Lleol gyflwyno HCB.

Cyn bod Hysbysiad Cosb yn cael ei gyflwyno, byddwch yn derbyn rhybudd ysgrifenedig oddi wrth yr Awdurdod Lleol, yn amlinellu faint fu'r plentyn yn absennol a'r posibilrwydd y byddwch yn cael Hysbysiad Cosb. Cynigir cyfnod o 15 o ddyddiau ysgol er mwyn gwella presenoldeb ac os nad oes yna UNRHYW absenoldeb heb awdurdod yn cael ei gofnodi yn ystod y cyfnod hwn yna ni fydd HCB yn cael ei gyflwyno.

NID yw'r cyfnod rhybudd o 15 niwrnod yn berthnasol i HCB a ddyfernir o ganlyniad i absenoldeb o ganlyniad i wyliau nad oedd wedi ei awdurdodi.

Nid oes terfyn ar nifer y troeon y gellir cyflwyno hysbysiad rhybudd.

Crynodeb

Mae gan yr ysgol gyfrifoldeb cyfreithiol i rannu ei ddata presenoldeb gyda rhieni er mwyn hyrwyddo lefelau rhagorol o presenoldeb. In yr un modd, mae gan heni ddyletswydd i sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol bob dydd.

Mae staff ein ysgol wedi eu hymrwymo eu hunain yn llwyr i weithio gyda rhieni a disgyblion er mwyn sicrhau bod y lefel presenoldeb mor uchel â phosib, gan ein bod, yn y pen-draw, yn credu bod cael lefelau presenoldeb rhagorol yn sicrhau bod plant yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd ar gael iddynt yn yr ysgol ac yn llwyddo.

Atodiadau

(i) Y Gyfraith yng nghyswllt presenoldeb

Noda Adran 7 Deddf Addysg 1996 bod *'rhaid i rieni pob plentyn o fewn yr oedran ar gyfer addysg orfodol beri iddo/iddi dderbyn addysg llawn amser effeithlon sy'n addas:-*

(a) i'w hoedran, gallu a thueddfryd

*(b) ar gyfer unrhyw anghenion addysgiadol arbennig sydd ganddi/ganddo;
naill ai trwy fynychu ysgol yn gyson ynteu trwy ddarpariaeth arall'.*

(ii) Y Gyfraith yng nghyd-destun diogelu

Gesyd Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 ddyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrrff llywodraethol i roi sylw i unrhyw gyfarwyddyd a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol yng nghyswllt diogelu a hyrwyddo lles plant a myfyrwyr sy'n iau na 18 mlwydd oed.